

Gwybodaeth Gefndirol

Y Wiwer Goch Ewrasiaidd

Cynefin

Mae'r wiwer goch Ewrasiaidd yn rhywogaeth frodorol i'r DU a chredir ei bod wedi byw yma am tua 10,000 o flynyddoedd. Mae gwiwerod coch yn byw dros y rhan fwyaf o Ewrop a Gogledd Asia lle nad yw'r rhywogaeth o dan fygythiad. Ond, yn y DU, dim ond mewn pcedi cyfyngedig maen nhw'n byw, yn bennaf oherwydd cystadleuaeth gan y wiwer lwyd anffodorol.

Mae gwiwerod coch yn famaliaid sy'n byw mewn coed. Eu hoff gynefin yw coetiroedd llydanddail cymysg gydag amrywiaeth o rywogaethau sy'n cynnig diet mwy amrywiol.

Y dyddiau hyn, mae gwiwerod coch yn aml wedi'u cyfyngu i goedwigoedd coniferaidd sy'n gallu achosi dryswch am eu hoff gynefin. Maen nhw'n byw yn hapus mewn coedwigoedd conwydd cyn belled â'u bod yn gallu casglu digon o fwyd.

Ymddangosiad

Mae gwiwerod coch wedi cael eu henwi oherwydd eu lliw brown goch, er bod ganddyn nhw ochr isaf lliw hufen ysgafnach hefyd.

Mae'r wiwer goch yn enwog am ei chynffon fawr a blewog, sydd fel arfer yn mesur yr un peth neu'n hirach na'i chorff cyfan. Mae'n ei helpu i gydbwysu'n ogoneddus a symud i fyny, i lawr ac i'r ochr drwy'r coed gyda gosgeiddrwydd a hyder. Maen nhw'n defnyddio eu cynffonau fel arwydd o beryg i wiwerod coch eraill ac i'w cadw'n gynnes drwy eu lapio o'u cwmpas. Mae gwiwerod coch yn adnabyddus am eu clustiau blewog sy'n gallu tyfu cymaint â 3cm yn y gaeaf. Mae'r clustiau blewog hyn yn helpu'r gwiwerod coch gyda'u clyw hynod o sensitif, sy'n caniatáu iddyn nhw fod yn effro i beryglon posibl.

Nythod Gwiwerod

Mae gwiwerod coch yn adeiladu eu nythod yn uchel yn y coed. Mae'n helpu i'w cadw'n ddiogel rhag ysglyfaethwyr. Maen nhw'n adeiladu'r nythod hyn yn agos i foncyff y coed fel eu bod yn cael eu cysgodi rhag y gwynt a'r glaw.

Ym misoedd yr haf, mae'r nythod yn llai cadarn ac yn cael eu defnyddio ar gyfer cwsg bach clou neu noson fer o gwsg. Yn y gaeaf neu wrth baratoi ar gyfer gwiwerod bach, mae'r nythod yn cael eu hadeiladu gyda mwy o strwythur fel eu bod yn gryf ac yn gallu gwrthsefyll pob math o dywydd. Mae'r nythod yn cael eu leinio gyda mwsogl, dail a blew er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn glyd ac yn gynnes drwy fisoedd y gaeaf.

Bwyd

Mae gwiwerod coch yn hoffi bwyta diet cytbwys, sy'n cynnwys hadau a chnau yn bennaf. Maen nhw'n arbennig o hoff o gnau pinwydd a hadau o larwydden a phefrwydden, ond byddan nhw hefyd yn hapus i fwyta cnau cyll a mes. Maen nhw'n mwynhau ffrwythau ac aeron, madarch, rhisgl, cen a blagur coed.

Yn y gwanwyn a'r haf, maen nhw'n bwyta blagur, bylbiau, blodau, ffrwythau, aeron ac weithiau drychfilod ac wyau adar. Bydd gwiwerod coch yn storio hadau a chnau am adegau pan fydd bwyd yn brin. Maen nhw'n hel bwyd yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf a'i storio mewn gwahanol leoliadau

The Wilders



cadwch keep
cymru'n wales
daclus tidy

Eco-Sgollon



Eco-Schools

Gwybodaeth Gefndirol

Y Wiwer Goch Ewrasiaidd

o dan y ddaear. Yn anffodus, maen nhw'n aml yn anghofio lle maen nhw wedi claddu'r bwydydd hyn sy'n profi'n ddefnyddiol iawn ar gyfer gwasgaru hadau.

Ymddygiad

Mae gwiwerod coch yn treulio llawer o'u hamser yn uchel ym mrigau'r coed, gan fwydo yn gynnar yn y bore ac yn hwyr yn y prynhawn.

Mae gwiwerod coch yn esgor ar un dorllwyth o dri o wiwerod bach y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae tymor bridio gwiwerod coch rhwng mis Mawrth a mis Mehefin. Mae'r gwiwerod bach yn cael eu geni'n fach iawn gan bwysu tua 10g-15g, tua'r un pwysau â llwy ffwrdd o siwgr! Maen nhw'n cael eu geni'n foel, yn fyddar ac nid ydyn nhw'n gallu gofalu am eu hunain, felly mae rôl y rhiant yn bwysig iawn yn ystod y misoedd cyntaf. Wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn, mae'r gwiwerod bach yn mynd ymhellach ac ymhellach o'u cartrefi nes iddyn nhw adael y nyth. Nid yw gwiwerod coch yn byw mewn poblogaethau dwysedd uchel ac ar ôl gadael nythod eu rhieni, maen nhw'n gallu teithio mwy na 10km i ddod o hyd i'w cartrefi newydd.

Mae gwiwerod coch yn llai actif yn y gaeaf. Yn aml, byddan nhw'n aros yn y nyth am ddyddiau, gan gysgodi o'r oerfel a chadw'n sych. Er bod gwiwerod coch fel arfer yn nythu ar eu pennau eu hunain, weithiau maen nhw'n casglu mewn grwpiau bach ac yn swatio mewn un nyth os yw'r tywydd yn arbennig o oer.

Cadwraeth –Pam fod gwiwerod coch yn bwysig?

Mae gwiwerod coch yn chwarae rôl eithaf arbenigol yn yr ecosystemau y maen nhw'n goroesi ynddynt. Maen nhw'n dosbarthu hadau collddail a chonifferaidd, gan eu bod wedi'u haddasu i dynnu'r hadau o'r conau. Mae wedi'i nodi bod gwiwerod coch yn mynd â ffyngau i mewn i goed, gan eu gosod rhwng y canghennau i sychu, gan ledaenu sborau ffyngau mycorhisol. Mae'r ffyngau hyn yn ffurfio perthynas symbiotig gyda choed ac maen nhw'n hynod bwysig i'w goroesiad.

Mae gwiwerod coch a llwyd yn gallu niweidio'r coed y maen nhw'n byw ynddynt. Maen nhw'n tynnu'r rhisgl gan adael y goeden yn agored i heintiau. Ond mae gwiwerod llwyd yn byw mewn grwpiau mwy ac felly yn gallu cael mwy o effaith ar iechyd coetiroedd. Pe bai gwiwerod coch yn diflannu o'r DU, byddai'n cael ôl-ffeithiau sylweddol ar goetiroedd conwydd a'r anifeiliaid sy'n dibynnu ar y cynefin hwnnw fel y gwalch glas a'r gath wyllt.

Bygythiadau

Yn y DU, y prif fygythiad i wiwerod coch yw'r gystadleuaeth gan wiwerod llwyd ymledol anffrodorol. Cafodd gwiwerod llwyd Gogledd America eu cyflwyno yn Swydd Gaer gan y Fictoriaid ym 1876. Sefydlodd y gwiwerod llwyd yn gyflym a dechreuodd ledaenu dros y wlad. Maen nhw'n fwy na'r wiwer goch frodorol ac yn cystadlu am fwyd.

Mae gwiwerod llwyd yn bridio'n fwy toreithiog na gwiwerod coch, gan gynhyrchu 2 dorllwyth o 3-7 o wiwerod bach y flwyddyn ac maen nhw'n byw mewn grwpiau mwy. O ganlyniad does dim digon o le neu fwyd i gefnogi'r ddwy rywogaeth. Bygythiad arall sy'n dod gyda'r gwiwerod llwyd yw brech y wiwer. Dyw'r frech ddim yn effeithio ar wiwerod llwyd ond mae'n lladd gwiwerod coch.

The Wilders



cadwch keep
cymru'n wales
daclus tidy

Eco-Sgollon



Eco-Schools

Gwybodaeth Gefndirol

Y Wiwer Goch Ewrasiaidd

Sut mae dysgwyr ac ysgolion yn gallu gwneud effaith gadarnhaol

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwiwerod coch i'n hecoleg drwy addysgu holl gymuned yr ysgol.
- Os ydych chi'n byw mewn ardal lle mae gwiwerod coch yn byw, ewch am dro yn y goedwig ac edrychwch am wiwerod coch neu arwyddion ohonyn nhw a chofnodi'r hyn rydych chi'n ei weld.
- Darganfod beth mae gwiwerod coch yn hoffi bwyta, cynnig y bwyd hwnnw a chreu/gosod porthwyr arbenigol.
- Mae gofalu am eich coed ac ardaloedd allanol yn helpu gwiwerod coch drwy ofalu am eu cynefin.
- Bydd gwella bioamrywiaeth a chreu hafan fywyd gwyllt yn helpu llawer o rywogaethau yn eich ardal leol.
- Darganfod a oes grŵp cadwraeth lleol yn eich ardal a dod yn aelod o raglen gadwraeth wiwerod coch.
- Mabwysiadu gwiwer goch fel dosbarth drwy Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru, gallwch chi gael mwy o wybodaeth am hyn yma: [Wildlife Adoption Pack: Rescue a Red Squirrel](#)

The Wilders



cadwch keep
cymru'n wales
daclus tidy

Eco-Sgollon




Eco-Schools

Gwybodaeth Gefndirol

Y Wiwer Goch Ewrasiaidd

Mwy o wybodaeth



[Mwy o wybodaeth ar nythod gwiwerod](#)

[Poster ffeithiau am y Wiwer Goch](#)

[Gwybodaeth am fabwysiadu Gwiwerod Coch](#)

[Ymddiriedolaeth Goroesi'r wiwer goch](#)

[Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru](#)

[Sefydliadau Gwiwerod Coch eraill](#)

The Wilders



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Eco-Sgollon



Eco-Schools